# AC(2) 07-05(p7)

## Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol ar Gaffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru: Adroddiad Pwyllgor (2) 02-05

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad. Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r deg argymhelliad yn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| 1 | Bod y Cyngor yn rhoi ar waith y mesurau y mae wedi'u cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn gwella lefel yr arbenigedd, ymgymryd â gwiriadau ffitrwydd caffael ym mhob sefydliad a datblygu dull o weithio ar sail consortiwm; |
| | |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Mae'r Cyngor wedi penodi Rheolwr Caffael a fydd yn gweithio gyda'r sector Addysg Uwch ar roi'r argymhellion ar waith yn ogystal â delio â gwaith caffael y Cyngor ei hun. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Cyngor, Llywodraeth y Cynulliad, Tîm Menter Gaffael Cymru a PMMS Consulting Group a fydd yn cyflwyno rhaglen y gwiriadau ffitrwydd caffael gyda'r bwriad o ddechrau ar y gwiriadau ffitrwydd cyn gynted ag y bo modd a'u cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2005. Bydd y gwiriadau ffitrwydd eu hunain yn nodi pa sefydliadau sydd heb arbenigedd caffael digonol a bydd y Cyngor yn monitro gweithredu cynlluniau gweithredu dilynol sydd i'w cwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2006. Lle tybir y bydd yr arbenigedd yn cael ei gyflwyno orau drwy gydweithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r sefydliadau i fynd i'r afael â hyn.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu ymhellach y Consortiwm Caffael Addysg Uwch presennol ac mae ar hyn o bryd yn aros am gais ar y cyd i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu er mwyn hyrwyddo'r datblygiad. |
| | |
| 2 | Bod y Cyngor yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor hwn ar yr hyn a wnaed o fewn y deuddeg mis i'r dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn; |
| | |

| | |
|---|---|
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd y Cyngor yn ymgymryd i roi diweddariad i Bwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol o fewn deuddeg mis i’r dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad hwn hy 11 Ebrill 2006. |
| | |
| 3 | Bod y Cyngor yn cydgysylltu gweithgareddau yn unol ag arferion gorau rheoli prosiectau, yn monitro gweithredu'r cynlluniau gweithredu yn drylwyr ac yn adrodd ar gynnydd o bryd i'w gilydd i Lywodraeth y Cynulliad; |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd y Cyngor yn paratoi ei strategaeth caffael a'i gynllun gweithredu ei hun erbyn 31 Rhagfyr 2005. Bydd yn cynnwys monitro gweithredu cynlluniau gweithredu'r sefydliad ei hun. Cyflwynir adroddiadau cynnydd i Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y cyfarfodydd monitro chwarterol a gynhelir â'r Cyngor ac i Dîm Menter Gaffael Cymru lle bo'n berthnasol. |
| | |
| 4 | Bod y Cyngor yn adolygu ei gynlluniau yn ffurfiol bob blwyddyn, gan ymgynghori â'r sefydliadau a nodi unrhyw newidiadau sy'n ofynnol er mwyn cynnal y momentwm ar ôl y cyfnod cychwynnol; |
| | |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd y Cyngor yn adolygu ei strategaeth caffael a'i gynllun gweithredu bob blwyddyn, gan ymgynghori â sefydliadau a Llywodraeth y Cynulliad. |
| | |

| | |
|---|---|
| 5 | Bod y Cyngor yn cymryd camau priodol, gan gynnwys tynnu'n ôl y cyllid fel y cam olaf, os bydd y sefydliadau yn methu dro ar ôl tro â chydweithredu â gofynion rhesymol y Cyngor mewn perthynas â chaffael. Dylai'r gofynion hynny fod yn unol â'r rheini a amlinellwyd yn Creu'r Cysylltiadau a pholisïau caffael perthnasol eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru; |
| | |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bod y Cyngor yn paratoi cynllun gweithredu er mwyn cyflawni'r gofynion a welir yn 'Creu'r Cysylltiadau'. Mae'r gwaith sydd eisoes ar droed, yn arbennig y gwiriadau ffitrwydd caffael, wedi'i gynllunio i sicrhau y gall sefydliadau ymateb yn effeithiol i'r targedau a nodir. Bydd y Cyngor yn ychwanegu telerau ac amodau at y cyllid a fydd yn ei alluogi i dynnu'r grant yn ôl fel y cam olaf, os yw'r sefydliad yn methu â chydweithredu dro ar ôl tro. |
| | |
| 6 | Bod y Cyngor yn asesu lefel yr arbenigedd sydd ar gael i'r sector, ac i'r sefydliadau unigol, ac yn datblygu strategaeth addas er mwyn sicrhau bod arbenigedd proffesiynol digonol ar gael i bob rhan o'r sector. Dylai hyn gael ei drefnu er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r sector yn ei gyfanrwydd; |
| | |
| | Cytuno. |
| | Sylwadau |
| | Bydd lefel yr arbenigedd yn cael ei asesu drwy'r rhaglen gwiriadau ffitrwydd caffael, yn ogystal ag unrhyw gamau a fydd yn ofynnol er mwyn cael neu ddatblygu'r arbenigedd hwn. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau yn unigol ac ar y cyd â'i gilydd er mwyn sicrhau bod arbenigedd ar gael a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol drwy'r sector. |
| | |
| 7 | Bod y Cyngor yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob sefydliad ddatblygu strategaeth gaffael gadarn, yn monitro ei weithrediad ac yn ei adolygu yn rheolaidd. Dylai'r Cyngor ddefnyddio ei gymorth proffesiynol ei hun, neu gymorth proffesiynol gan eraill, er mwyn asesu ansawdd pob strategaeth a chymeradwyo gwelliannau os yw'n briodol; |
| | |
| | Cytuno. |

| | |
|---|---|
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd y rhaglen gwiriadau ffitrwydd caffael yn rhoi tystiolaeth annibynnol ar gadernid strategaethau caffael sefydliadau ac yn nodi meysydd i'w gwella ymhellach. Bydd rheolwr caffael y Cyngor, ar y cyd â Thîm Menter Gaffael Cymru, yn adolygu cynnydd yn rheolaidd wrth i'r strategaethau hyn gael eu gweithredu. |
| | |
| 8 | Bod pob sefydliad yn gosod targed o dri y cant o leiaf o'u gwariant caffael cyfredol, yn unol â'r targed cenedlaethol yn Creu'r Cysylltiadau, a bod y Cyngor yn rhoi cymorth gyda'r gwaith o gyflawni'r targed hwn ac yn ei fonitro; |
| | |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei gyflwyno yn rhan o gynllun gweithredu'r Cyngor ar gyfer 'Creu'r Cysylltiadau'. Yn unol â thargedau 'Creu'r Cysylltiadau', disgwylir i'r sector wneud arbedion o 3% o ran caffael a gwerth am arian erbyn 2008 gan ddechrau gyda tharged o £3.8m o leiaf yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen a fydd yn dechrau ar 1 Awst 2005. Bydd y Cyngor yn monitro'r hyn a gyflawnwyd drwy system mesur arbedion Tîm Menter Gaffael Cymru. |
| | |
| 9 | Bod gwybodaeth reoli pob sefydliad yn cael ei datblygu er mwyn eu galluogi i ddangos eu perfformiad yn erbyn y targedau arbedion; |
| | |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd y gwiriadau ffitrwydd caffael yn feincnod ac yn gynllun gweithredu i sefydliadau ddatblygu eu gwybodaeth reoli, gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau arbedion. Bydd y Cyngor yn monitro'r perfformiad hwn yn rhan o'r gwaith blynyddol o fonitro sefydliadau. |
| | |

| | |
|---|---|
| 10 | Bod y Cyngor yn gweithio'n agos â chyrff unigol er mwyn sicrhau gwelliannau ymarferol o ran cael gwerth am arian o'u rhaglenni caffael, gan roi ystyriaeth lawn i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch materion perthnasol, yn ogystal â'n hargymhellion ein hunain. |
| | |
| | Cytuno. |
| | |
| | Sylwadau |
| | Bydd y gwiriadau ffitrwydd caffael yn nodi'r sefyllfa gyfredol ym mhob corff a'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Cyngor, drwy ei Reolwr Caffael, yn ceisio sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol o ran gwerth am arian drwy brofi'r farchnad, defnyddio dulliau caffael cynaliadwy priodol ac e-gaffael. Bydd hefyd yn monitro gweithredu’r cynlluniau gweithredu a, lle bo'n briodol, yn mynd i'r afael â materion ei hun megis rhannu arferion gorau ac annog cydweithredu ar draws y sectorau. |